**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Cynghorydd Huw Thomas
Arweinydd Cyngor Caerdydd
Cyngor Caerdydd

copi at: Cynghorydd Jennifer Burke-Davies
Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau
Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip, Llywodraeth Cymru
Jack Sargeant AS
Cadeirydd, Pwyllgor Deisebau y Senedd

Dyddiad | Date: 05 Rhagfyr 2022

Pwnc | Subject: Dyfodol Neuadd Dewi Sant

Annwyl Gynghorydd Thomas,

Yng nghyfarfod ein Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2022, fe wnaethom ni drafod gohebiaeth ynghylch dyfodol Neuadd Dewi Sant a'r posibilrwydd y gallai'r lleoliad gael ei redeg gan gwmni allanol yn y dyfodol. Mae hyn yn ychwanegol at y ddwy ddeiseb gyhoeddus, y naill ar Change.org a'r llall ar wefan Deisebau'r Senedd, sydd gyda'i gilydd wedi casglu dros 20,000 o lofnodion ar adeg ysgrifennu hyn. Mae ein diddordeb yn y mater hwn yn deillio o'r rôl ganolog sydd gan Neuadd Dewi Sant erioed fel neuadd gyngerdd operatig a symffonig genedlaethol Cymru. Yn ogystal â hyn, rydym yn siŵr y byddwch yn gwerthfawrogi'r rôl sydd gan ein Pwyllgor o ran craffu ar weithgarwch mewn materion diwylliannol o bwys cenedlaethol yng Nghymru, ac yn wir y ffaith bod y lleoliad wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn y gorffennol. O ystyried yr holl ffactorau hyn, a'ch cynnig i gwrdd ag Aelodau o'r Senedd i drafod y mater, hoffem ofyn nifer o gwestiynau i chi ynghylch y cynnig.

## Ymrwymiadau polisi presennol Cyngor Caerdydd

Rydym yn nodi y dywedodd y Cynghorydd Burke-Davies yng nghyfarfod Cyngor Caerdydd ar 27 Hydref 2022 fod ymrwymiad i sicrhau dyfodol cynaliadwy i Neuadd Dewi Sant. Rydym hefyd yn nodi'r ymrwymiadau y gwnaeth eich gweinyddiaeth yn ei dogfen bolisi, "Cryfach, Tecach, Gwyrddach". Mae'r ddogfen yn nodi y byddwch yn "*sicrhau bod Neuadd Dewi Sant yn cadw ei safle fel awditoriwm o'r radd flaenaf*". Mae'r ddogfen bolisi hefyd yn amlinellu ymrwymiadau i roi blaenoriaeth ar gyfer gofodau ac asedau cyhoeddus i grwpiau cymunedol a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Rydym yn croesawu'r ymrwymiadau hyn gan eu bod yn

cyd-fynd â'n gwerthoedd fel Pwyllgor o ran sicrhau mynediad cyfartal i ddiwylliant, a chyfranogiad mewn diwylliant, i bawb sy'n byw yng Nghymru.

Fodd bynnag, byddem yn croesawu rhagor o eglurder ynghylch sut rydych yn bwriadu cyflawni'r ymrwymiadau hyn os byddwch yn trosglwyddo'r gwaith o redeg y neuadd o ddydd i ddydd i ddarparwr sector preifat.

Byddem hefyd yn ddiolchgar o wybod sut y byddwch yn sicrhau statws parhaus y neuadd fel un o'r neuaddau cyngerdd â sain gorau yn y byd. Nodwyd bod neuaddau mwy newydd weithiau'n aberthu ansawdd sain ar allor dyluniad gweledol a maint. Rydym yn pryderu, pe bai darparwr preifat yn rhedeg y lleoliad, y gallai geisio newid cynllun y lleoliad – er enghraifft, pe bai'r neuadd yn cael ei newid yn lleoliad gigs, gallai darparwr preifat ddewis tynnu'r seddi neu bwll y gerddorfa. Byddem yn pryderu y gallai hyn, yn ei dro, amharu ar acwsteg y neuadd, ac yn wir beryglu ei gallu i barhau i gynnal digwyddiadau clasurol rhyngwladol, fel y Gyfres o Gyngherddau Rhyngwladol a chystadleuaeth BBC Cymru Wales Canwr y Byd Caerdydd.

## Perfformiad a gwybodaeth ariannol Neuadd Dewi Sant

Er mwyn cael darlun mwy cywir o'r heriau ariannol sy'n wynebu Neuadd Dewi Sant, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth a ganlyn i ni:

- Dadansoddiad o incwm y neuadd am y tair blynedd ariannol ddiwethaf (gan gynnwys incwm grant, yn cynnwys yr hyn a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru);
- Dadansoddiad o wariant y neuadd am y tair blynedd ariannol ddiwethaf;
- Amcangyfrif o gyfanswm cost yr ôl-groniad cynnal a chadw a dadansoddiad o'r prif gostau;
- Nifer y perfformiadau a gynhaliwyd yn y lleoliad ym mhob un o'r tair blynedd ariannol flaenorol;
- Nifer yr ymweliadau gan ysgolion a chyngherddau ysgol sydd wedi digwydd yn y pum mlynedd diwethaf (gan gynnwys dadansoddiad o'r rhai o Gaerdydd a thu allan i Gaerdydd);
- Sawl gwaith y mae grwpiau cymunedol a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol wedi defnyddio'r lleoliad yn ystod y pum mlynedd diwethaf (gan gynnwys dadansoddiad o'r rhai o Gaerdydd a thu allan i Gaerdydd).

## Blaengynllun a chydweithio

Rydym hefyd yn ymwybodol bod blaengynllun y Cyngor yn cynnwys eitem mewn perthynas â phenderfyniad allweddol yn ymwneud â Neuadd Dewi Sant. Yn benodol, mae'r eitem hon yn nodi y bydd Cabinet Cyngor Caerdydd yn ystyried yr achos busnes amlinellol ar gyfer dyfodol Neuadd Dewi Sant ac yn cytuno i symud ymlaen i gam yr achos busnes llawn ar 15 Rhagfyr 2022. Nodwn fod hysbysiad o benderfyniad allweddol arfaethedig wedi'i gyhoeddi gyntaf ar 11 Tachwedd 2022, ychydig dros bythefnos ar ôl codi'r eitem yn y Cyngor Llawn.

Gan fod y Cyngor yn ddiau wedi bod yn datblygu ei achos busnes amlinellol ers peth amser cyn 11 Tachwedd 2022, ac yn wir pan godwyd y mater yn y Cyngor Llawn ar 27 Hydref 2022, nid yw'n glir pam na chyhoeddwyd y penderfyniad ym mlaengynllun y Cyngor yn gynharach. Byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pam na ddigwyddodd hyn.

Er y nodwyd bod cwmni wedi gwneud cynnig i Gyngor Caerdydd i gymryd cyfrifoldeb dros redeg Neuadd Dewi Sant, yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidogion ar 29 Tachwedd 2022, nododd y Prif Weinidog, yn dilyn trafodaethau â chi, fod Cyngor Caerdydd "*[yn] gwneud y gwaith gyda nid jest un cwmni ond mwy nag un cwmni sydd wedi dangos diddordeb i gydweithio â'r cyngor dros ddyfodol Neuadd Dewi Sant*".

Fel y gallwch ei werthfawrogi rwy'n siŵr, mae'r adroddiadau gwahanol sydd wedi'u nodi yn y cyfryngau, gan y Prif Weinidog ac mewn gohebiaeth yr ydym wedi'i derbyn, wedi arwain at beth dryswch.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym:

- Dros ba gyfnod y datblygodd y Cyngor ei achos busnes amlinellol?
- Sut yr ymgysylltwyd â rhanddeiliaid wrth ddatblygu’r achos busnes amlinellol? Yn benodol, pa waith ymgysylltu a gynhaliwyd gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (er enghraifft y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010)?
- A yw'r Cyngor yn bwriadu cyhoeddi ei achos busnes amlinellol, ac os felly pryd?
- Pa amserlen y mae'r Cyngor yn gweithio’n unol â hi i ganfod ateb ar gyfer dyfodol Neuadd Dewi Sant, gan gynnwys pryd y mae disgwyl i'r Cabinet ystyried yr achos busnes llawn?
- Sut mae'r Cyngor wedi nodi'r sefydliadau sydd wedi dangos diddordeb mewn cydweithio gyda'r Cyngor?

Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech anfon y wybodaeth y mae’r llythyr hwn yn gofyn amdani **erbyn dydd Llun 12 Rhagfyr 2022**. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi cael diweddariad pellach yn dilyn cyfarfod y Cabinet ar 15 Rhagfyr 2022, gan gynnwys manylion y datrysiad arfaethedig a fydd yn cael ei ddwyn ymlaen i’r achos busnes llawn.

Rydym yn croesawu eich datganiadau ar bwysigrwydd sicrhau dyfodol cynaliadwy i Neuadd Dewi Sant fel neuadd gyngerdd genedlaethol Cymru. Bydd gennym oll ddiddordeb mawr mewn sicrhau llwyddiant parhaus i’r lleoliad, a byddem yn croesawu eich ymateb i’r cwestiynau a nodir yn ein llythyr.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.